MARK ISHERWOOD MS|AS
Member of the Welsh Parliament for **North Wales**
Aelod Senedd Cymru dros **Ogledd Cymru**
Senedd Cymru Welsh Parliament
Welsh Conservatives | Ceidwadwyr Cymreig



30 Mai 2025

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Annwyl Jenny

**Y Bil Iaith Arwyddion Prydain (BSL) (Cymru)**

Fel y gwyddoch, ar 19 Mehefin 2024, sicrheais gytundeb y Senedd i gyflwyno’r Bil Iaith Arwyddion Prydain (BSL) (Cymru) ar ôl imi lwyddo yn y balot Biliau Aelod a gynhaliwyd ym mis Ebrill 2024.

Disgwylir i’r Bil gael ei gyflwyno’n ffurfiol gerbron y Senedd ddydd Llun 14 Gorffennaf 2025. Cyn hynny, bydd y cyfnod cyn cyflwyno yn dechrau ddydd Llun 16 Mehefin, ac yn ystod y cyfnod hwnnw bydd y Bil yn cael ei anfon at y Llywydd i’w ystyried o dan adran 110(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Gyda’r cyfnod cyn cyflwyno yn agosáu, rwyf wedi cyhoeddi'r Bil drafft a'r Nodiadau Esboniadol sy’n cyd-fynd ag ef heddiw. Fy nod wrth gyhoeddi'r Bil nawr yw rhoi cymaint o amser â phosibl i'r rhai y bydd y Bil yn effeithio arnynt allu ystyried y manylion a geir ynddo.

**MARK ISHERWOOD MS|AS**
Member of the Welsh Parliament for **North Wales**
Aelod Senedd Cymru dros **Ogledd Cymru**

Senedd Cymru
Welsh Parliament

Welsh Conservatives | Ceidwadwyr Cymreig



Ysgrifennaf atoch yn eich rôl fel Cadeirydd am fy mod yn tybio, o ystyried cylch gwaith y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, mai at eich pwyllgor chi y caiff y Bil ei gyfeirio ar gyfer gwaith craffu unwaith iddo gael ei gyflwyno'n ffurfiol. Rwy'n gobeithio y bydd cyhoeddi'r Bil yn gynnar yn eich helpu i ddechrau unrhyw baratoadau ar gyfer y gwaith craffu ffurfiol hwnnw. Er ei fod yn dal o dan ddatblygiad, rwy'n gobeithio gallu rhannu copi o'r Memorandwm Esboniadol llawn a fydd yn cyd-fynd â'r Bil â'r Pwyllgor hefyd. Rwy'n gobeithio gwneud hynny pan gaiff ei anfon at y Llywydd ar gyfer y cyfnod cyn cyflwyno.

Nid yw'r Pwyllgor Busnes wedi cadarnhau'r amserlen ar gyfer hynt y Bil eto. Fodd bynnag, o ystyried y terfynau amser perthnasol a nodir yn y Rheolau Sefydlog, a'r ffaith y bydd y Senedd yn cael ei diddymu ar 8 Ebrill 2026, rwy'n rhagweld y bydd yr amserlen yn eithaf tynn. Byddwn yn hapus iawn i helpu'r pwyllgor mewn unrhyw ffordd bosibl a fyddai'n cefnogi'r broses graffu hon.

Yn gywir,

Mark Isherwood

**Mark Isherwood AS**
**Aelod o Senedd Cymru dros Ogledd Cymru**